**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: JB/2722/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

19 Rhagfyr 2025

Annwyl Mike,

Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ystyried y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru).

Rwyf wedi nodi fy ymatebion yn y tabl isod ac rwyf yn falch o nodi fy mod wedi derbyn, neu wedi derbyn mewn egwyddor, holl argymhellion y Pwyllgor.

Gobeithiaf y bydd yr ymateb hwn yn helpu i lywio gwaith craffu pellach ar y Bil ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau'r Pwyllgor wrth inni fynd drwy broses ddeddfwriaethol y Senedd.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

Jayne Bryant

**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a fydd gweithredu'r cynigion i awdurdodau lleol gydweithio yn eu rôl fel awdurdodau diogelwch adeiladau, mewn tri grŵp i adlewyrchu ôl troed yr awdurdodau tân ac achub, yn gwneud gwelliannau i Fil Diogelwch Adeiladau (Cymru) yn ofynnol, sef:<br><br>i. Os yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno gwelliannau i'r Bil i weithredu'r cynigion hyn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro beth fyddai'r gwelliannau hynny'n debygol o fod, a phwrpas ac effaith pob un o'r gwelliannau hynny.<br><br>ii. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno gwelliannau i'r Bil i weithredu'r cynigion hyn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi'r trefniadau llywodraethu mae'n bwriadu sefydlu'r strwythurau cydweithredol arfaethedig oddi tanynt, a rôl y Senedd wrth ystyried a chymeradwyo'r trefniadau llywodraethu hynny. | Derbyn | Heblaw am y gwelliant i adran 100 a nodir isod, gallaf gadarnhau nad oes angen gwelliannau i gyflawni'r model a ffefrir.<br><br>O dan adran 101(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'r pŵer gan awdurdodau lleol eisoes i ddirprwyo swyddogaethau nad ydynt yn swyddogaethau gweithrediaeth i'w gilydd. Mae hyn yn cynnig dull parod er mwyn cyflawni'r model a ffefrir o roi swyddogaethau awdurdod diogelwch adeiladu i grŵp bach o awdurdodau lleol sy'n adlewyrchu ardaloedd awdurdodau tân ac achub. Rwyf wedi cyflwyno gwelliant i adran 100 o'r Bil, sy'n darparu na ddylai gweithrediaeth yr awdurdod lleol ysgwyddo swyddogaethau awdurdod diogelwch adeiladau. Bydd hyn yn sicrhau y gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r pŵer a nodir yn adran 101(1)(b) o Ddeddf 1972 yn y cyd-destun hwn.<br><br>Os nad yw'n bosibl cyflawni hyn trwy gydsyniad, mae'r pŵer gan Weinidogion Cymru i gyfarwyddo bod swyddogaethau yn cael eu dirprwyo o dan adran 102 o'r Bil. Er mwyn hwyluso hyn ymhellach, rwyf wedi cyflwyno gwelliant Cyfnod 2 i adran 102 a |

| | | |
|---|---|---|
| | | fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo sawl awdurdod diogelwch adeiladau i drefnu bod swyddogaethau yn cael eu dirprwyo i un ohonynt yn hytrach na dibynnu ar sawl cyfarwyddiad i gyflawni'r un canlyniad.<br><br>Fodd bynnag, byddaf yn ystyried a oes unrhyw welliant arall y gellid ei gyflwyno i hwyluso ymhellach roi'r model cyflawni a ffefrir ar waith, heb golli'r hyblygrwydd y mae'r Bil yn ei ddarparu ar hyn o bryd. |
| **Argymhelliad 2:** Ar y cyfle cyntaf, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Comisiwn y Gyfraith i gwmpasu'r potensial ar gyfer cydgrynhoi a chodio cyfraith tai yng Nghymru. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cydgrynhoi a chodio cyfraith tai yng Nghymru, ac mae gwaith ar y gweill i ystyried rhai o'r goblygiadau ymarferol a ddaw o wneud hyn. Gall Comisiwn y Gyfraith gynnig cipolygon gwerthfawr i'r broses gydgrynhoi, ac yn wir maent eisoes wedi gwneud hynny, ond nid eu cynnwys yw'r ffordd fwyaf priodol o fwrw ymlaen gydag ymarfer cwmpasu ym mhob achos. Bydd prosiectau cydgrynhoi yn y dyfodol, a'r cyfnod cwmpasu rhagflaenol, yn fater i'r Llywodraeth nesaf wrth iddi ddatblygu ei rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. |
| **Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i sicrhau bod dyletswyddau gweithredol ar y llywodraeth i ymgynghori â phreswylwyr mewn perthynas â | Derbyn mewn egwyddor | Rwyf yn derbyn y byddai'n fuddiol diwygio'r Bil i adlewyrchu pwysigrwydd ymgynghori ac ymgysylltu â thrigolion. I'r perwyl hwnnw, rwyf wedi cyflwyno |

| | | |
|---|---|---|
| datblygu canllawiau ac is-ddeddfwriaeth, lle bo hynny'n berthnasol ac yn briodol. | | gwelliant Cyfnod 2 a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth sy'n pennu sut y byddant yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â thrigolion fel arall, a pha faterion, gan gynnwys rheoliadau a chanllawiau, y bydd hyn yn eu cwmpasu. |
| **Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adran 5 o'r Bil i roi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu'r rheoliadau, gan gynnwys preswylwyr, cyn gosod y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gymeradwyo | Derbyn mewn egwyddor | Rwyf yn derbyn yr argymhelliad i osod dyletswydd i ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu rheoliadau o dan adran 5.<br><br>Rwyf yn derbyn hefyd y byddai'n fuddiol diwygio'r Bil i adlewyrchu pwysigrwydd ymgynghori ac ymgysylltu â thrigolion. Bydd gwelliant Cyfnod 2 a ddisgrifir mewn perthynas ag argymhelliad 3 yn mynd i'r afael â hyn. Bydd y gwelliant hwnnw yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth sy'n pennu sut y byddant yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â thrigolion fel arall, a pha faterion, gan gynnwys rheoliadau a chanllawiau, y bydd hyn yn eu cwmpasu. |
| **Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i adran 6 o'r Bil i gynnwys y diffiniad o “lawr” a ddefnyddir i ddiffinio categorïau o adeiladau rheoleiddiedig | Derbyn mewn egwyddor | Rwyf yn derbyn pwyntiau'r Pwyllgor ynglŷn â chyflwyno gwelliant i adran 6 o'r Bil i gynnwys diffiniad o'r gair "llawr". Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried sut i ddrafftio gwelliant o'r fath. |

| | | |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i gyfyngu cwmpas y pwerau gwneud rheoliadau i'r materion a nodir yn adrannau 14(2)(a) a 14(2)(b). | Derbyn mewn egwyddor | Rwyf yn nodi pwyntiau'r Pwyllgor ynglŷn â'r defnydd eang posibl o adran 14 ac rwyf yn bwriadu cyflwyno gwelliant i gyfyngu'r pwerau i ryw raddau. |
| **Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adran 16 o'r Bil i gyfyngu cwmpas y pwerau gwneud rheoliadau i'r materion a nodir yn adrannau 16(2)(a), 16(2)(b)(i) a 16(2)(c). | Derbyn mewn egwyddor | Rwyf yn derbyn pwyntiau'r Pwyllgor ynglŷn â'r pwerau eang yn adran 16 a byddaf yn ystyried lle y gellir cyfyngu'r pwerau hyn, gyda'r bwriad o gyflwyno gwelliant i gyfyngu i ryw raddau gwmpas y pwerau gwneud rheoliadau. Mae hyn yn ychwanegol at y gwaith sy'n cael ei wneud i ystyried gofynion craffu ychwanegol i reoliadau drafft o dan adran 16. |
| **Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adran 16 o'r Bil i sicrhau bod unrhyw bŵer a roddir i Weinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â diffiniadau hanfodol a nodir yn y Bil (fel y rhai sy'n ymwneud â'r disgrifiad o "adeilad") yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo uwch – er enghraifft, un sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar ddrafft o'r rheoliadau cyn eu gosod at ddibenion craffu. | Derbyn | Byddaf yn cyflwyno gwelliant i adran 16 mewn ymateb i'r argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 9:** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, a chan ystyried ei hymateb i argymhellion 7, 8 a 9, dylai Llywodraeth Cymru nodi:<br>i. unrhyw achlysur lle gellid defnyddio dau neu ragor o bwerau yn y Bil at yr un diben; a<br>ii. ii. pam mae pob pŵer Harri'r Wythfed unigol yn y Bil yn angenrheidiol ac yn wahanol i'r pwerau gwneud | Derbyn | Mewn ymateb i argymhellion 6 a 7, rwyf yn bwriadu cyflwyno gwelliannau i gyfyngu, i ryw raddau, ar gwmpas adrannau 14 a 16. Gan fod argymhelliad 9 yn gofyn i'r wybodaeth y gofynnir amdano ym mhwyntiau (i) a (ii) i ystyried yr ymatebion i argymhellion cynharach, nid wyf yn gallu ymateb yn llawn i'r argymhelliad hwn ar hyn o bryd, gan fod |

| | | |
|---|---|---|
| rheoliadau eraill yn y Bil (rhai Harri'r Wythfed neu fel arall). | | manylion ynglŷn â chyfyngiadau'r cwmpas yn dal i gael eu hystyried. Byddaf yn ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth ddiweddaraf pan fydd y gwelliannau o ganlyniad i argymhellion 6 a 7 yn cael eu cyflwyno.<br><br>Pan ysgrifennais atoch ar 30 Hydref nodais pam mae pob un o'r pwerau Harri VIII sydd ar hyn o bryd yn y Bil yn angenrheidiol, yn rhesymol ac yn gymesur. Pan ysgrifennaf atoch, unwaith y bydd y gwelliannau o ganlyniad i argymhellion 6 a 7 yn cael eu cyflwyno, byddaf yn darparu fersiwn wedi'i diweddaru o'r dadansoddiad hwn. |
| **Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i adran 19(3) o'r Bil i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y broses mae awdurdodau diogelwch adeiladau yn ei defnyddio i gofrestru adeiladau o dan 19(1) | Derbyn | Byddaf yn cyflwyno gwelliant i adran 19(3) i adlewyrchu'r argymhelliad hwn, ynghyd â gwelliannau tebyg i adrannau 23(3) a 57(2) er mwyn sicrhau dull cyson ar draws y Bil. |
| **Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i adran 27 o'r Bil i sicrhau bod y pwerau yn is-adran (2) yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo uwch, sy'n cadw gofyniad Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar y rheoliadau, a hefyd yn rhoi cyfle i'r Senedd graffu ar reoliadau drafft a dogfen esboniadol cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd. | Derbyn | Byddaf yn cyflwyno gwelliant mewn perthynas â rheoliadau o dan adran 27(2) i adlewyrchu'r argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 12:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i adran 27 o'r Bil i sicrhau bod y pwerau yn is-adran (2) yn | Derbyn | Mae asesiadau o ba ganllawiau y gallai fod eu hangen ar ddeiliaid dyletswydd i gyflawni eu |

| | | |
|---|---|---|
| ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo uwch, sy'n cadw gofyniad Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar y rheoliadau, a hefyd yn rhoi cyfle i'r Senedd graffu ar reoliadau drafft a dogfen esboniadol cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd. | | dyletswyddau o dan y Bil yn effeithiol wedi'u gwneud drwy gydol datblygiad y Bil. Byddwn yn ystyried hyn ymhellach, gan weithio'n agos â'r holl bersonau perthnasol, yn rhan o weithredu'r Bil . O ganlyniad i'r adolygiad parhaus hwn, rwyf wedi cyflwyno gwelliant Cyfnod 2 a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer yr awdurdodau gorfodi ac rwyf yn ystyried cyflwyno gwelliannau eraill a fydd yn nodi disgwyliad cryfach bod yn rhaid cyhoeddi canllawiau lle mae'n briodol gwneud hynny. |
| **Argymhelliad 13:** Dylai Llywodraeth Cymru gadw golwg drwy gydol y broses graffu ar y cwestiwn a ddylid gwneud canllawiau ychwanegol yn orfodol yn y Bil i adlewyrchu newidiadau a wneir i'r Bil a/neu unrhyw newid i'r ffordd y bydd y Bil yn cael ei weithredu (er enghraifft, sut mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni eu dyletswyddau fel awdurdodau diogelwch adeiladau). | Derbyn | Fel uchod, rydym yn asesu'n barhaus pa ganllawiau y bydd eu hangen neu y mae angen eu gwneud yn orfodol a byddwn yn parhau i wneud hynny yn sgil unrhyw newidiadau a wneir i'r Bil a/neu unrhyw newidiadau i'r ffordd y bydd y Bil yn cael ei weithredu. |

| **Casgliad** | **Ymateb y Llywodraeth** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Casgliad 1:** Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas ag effaith y Bil ar hawliau'r Confensiwn, ond credwn y dylai'r Memorandwm Esboniadol, fel mater o arfer da, bob amser gynnwys sylwadau ar yr ystyriaeth a roddwyd i oblygiadau o'r fath | Rwyf yn fodlon bod darpariaethau'r Bil yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad llawn o hawliau dynol cyn cyflwyno unrhyw Fil yn rhan o'i asesiad trylwyr o gymhwysedd deddfwriaethol. Bydd y gyfres lawn o asesiadau effaith integredig yn cael ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. |
| **Casgliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru fod wedi creu cyfundrefn diogelwch adeiladau drwy ddeddfwriaeth Gymreig yn unig, yn hytrach na thrwy hybrid o ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru ochr yn ochr â'r Bil hwn. | Pan osodwyd y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r hyn sydd bellach yn Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022, esboniwyd y rhesymau dros gymryd y dull gweithredu i'r Senedd. Rydym yn parhau i fod o'r farn mai'r ffordd fwyaf effeithiol i wneud diwygiadau, i gyfundrefn y cam dylunio ac adeiladu a rheoleiddio'r proffesiwn rheoli adeiladu, oedd trwy wneud diwygiadau i Ddeddf Adeiladu 1984. Ers pasio Deddf 2022, bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod gwahanol gyfresi o reoliadau wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru i weithredu diwygiadau'r cam dylunio ac adeiladu, yn ogystal â'r drefn reoleiddio newydd ar gyfer y proffesiwn rheoli adeiladu. Mae'r gwaith gweithredu hwn yn mynd rhagddo gyda rheoliadau pellach i'w gwneud cyn bo hir. |
| **Casgliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cynnal ymgynghoriad ar ddrafft o Fil Diogelwch Adeiladau (Cymru) cyn ei gyflwyno i'r Senedd. | Fe wnaethom ymgynghori ar Bapur Gwyn sylweddol a manwl iawn. Mae'r Bil yn adlewyrchu canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw, a'n hymgysylltiad dilynol â rhanddeiliaid.<br><br>Pe baem hefyd wedi ymgynghori ar Fil drafft, ni fyddem wedi cael amser i ddeddfu yn nhymor y Senedd bresennol.  Wyth mlynedd |

| | |
|---|---|
| | ers tân Tŵr Grenfell, byddai'n anodd iawn cyfiawnhau cymryd amser ychwanegol i ymgynghori ar Fil drafft. |
| **Casgliad 4:** Mae maint y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru yn y Bil, ynghyd â maint gwaith ymarferol y Bil sydd wedi ei adael i reoliadau i'w sefydlu, yn gosod cydbwysedd pŵer yn amhriodol o blaid y weithrediaeth. | Rwyf yn derbyn bod nifer sylweddol o bwerau dirprwyedig yn y Bil. Fodd bynnag, rwyf yn fodlon ein bod wedi taro cydbwysedd priodol a chymesur rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn cael ei nodi mewn rheoliadau. Mae pwerau dirprwyedig wedi'u cynnwys lle bydd natur y darpariaethau hynny yn rhy fanwl neu dechnegol i fod ar wyneb y Bil, neu lle y gallai fod eu hangen i alluogi'r gyfundrefn i addasu neu ystyried senarios annisgwyl a datblygiadau yn y dyfodol, ee wrth ddylunio adeiladau. |
| **Casgliad 5:** Mae Adrannau 14 ac 16 o'r Bil yn cynrychioli dirprwyo pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru mewn ffordd annerbyniol. | Fel y nodwyd yn fy ymatebion i argymhellion 6 a 7, byddaf yn ystyried a oes lle i gyfyngu'r pwerau gwneud rheoliadau i ryw raddau. |
| **Casgliad 6:** Nid yw Ysgrifennydd y Cabinet wedi gwneud achos digonol dros gynnwys adran 16(2)(b)(ii) yn y Bil. | Rwyf yn nodi casgliad y Pwyllgor ac wedi gofyn i'm swyddogion ystyried y mater hwn fel rhan o ystyriaethau cyfyngu ar adran 16, fel yr amlinellir yn argymhelliad 7. |